# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Hybrid - Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 8 Gorffennaf 2024

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**P Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

# Hybrid

## Cyfarfod cyhoeddus

(13.30 - 14.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.30)

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.30 - 13.35) (Tudalennau 1 - 2)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-24 - Papur 1 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**2.1 SL(6)499 - Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2024**

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**2.2 SL(6)500 - Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) 2024**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

(13.35 - 13.40)

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Negyddol**

**3.1 SL(6)498 - Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) (Diwygio) 2024**

(Tudalennau 3 - 4)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-24 - Papur 2 - Adroddiad drafft

**Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**3.2 SL(6)501 - Rheoliadau Llywodraethu Digidol (Cyrff Cymreig) (Cymru) 2024**

(Tudalennau 5 - 6)

Rheoliadau

Memorandwm Esboniadol

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-24 - Papur 3 - Adroddiad drafft

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - trafodwyd eisoes

(13.40 - 13.45)

**4.1 SL(6)493 - Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024**

(Tudalennau 7 - 9)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-24 - Papur 4 - Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet, 1 Gorffennaf 2024

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 – trafodwyd eisoes

(13.45 – 13.50)

**5.1 SL(6)494 – Cod Ymarfer Rhan 2: Swyddogaethau Cyffredinol**

(Tudalennau 10 – 14)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-24 – Papur 5 – Adroddiad

LJC(6)-23-24 – Papur 6 – Ymateb Llywodraeth Cymru

**5.2 SL(6)495 – Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer**

(Tudalennau 15 – 18)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-24 – Papur 7 – Adroddiad

LJC(6)-23-24 – Papur 8 – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 6 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(13.50 – 13.55)

## 7 Papurau i'w nodi

(13.55 – 14.00)

**7.1 Gohebiaeth a Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Amgylchedd Bwyd Iach**

(Tudalennau 19 – 21)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-24 – Papur 9 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 1 Gorffennaf 2024

LJC(6)-23-24 – Papur 10 – Datganiad Ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, 1 Gorffennaf 2024

**7.2 Gohebiaeth â Llywodraeth y Deyrnas Unedig: Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol**

(Tudalennau 22 - 25)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-24 - Papur 11 - Llythyr gan yr Adran Gwyddoniaeth, Arloesi a Thechnoleg, 1 Gorffennaf 2024 [Saesneg yn unig]

LJC(6)-23-24 - Papur 12 - Llythyr at y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol, 15 Mawrth 2024

**7.3 Gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet: Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

(Tudalennau 26 - 43)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-24 - Papur 13 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet i'r Pwyllgor Cyllid, 2 Gorffennaf 2024

LJC(6)-23-24 - Papur 14 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, 2 Gorffennaf 2024

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(14.00)

## Cyfarfod preifat

(14.00 - 15.30)

## 9 Ymgynghoriad ar y Cytundeb Masnach a Chydweithredu

(14.00 - 14.15) (Tudalennau 44 - 47)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-24 - Papur 15 - Papur [Saesneg yn unig]

## 10 Y broses cydsyniad deddfwriaethol

(14.15 - 14.30) (I ddilyn)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-24 - Papur 16 - Papur [Saesneg yn unig]

## 11 Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a'i heffaith ar gyfraith Cymru: Sesiwn gyda'r Athro Thomas Horsley

(14.30 - 15.30) (Tudalennau 48 - 87)

Yr Athro Thomas Horsley (Prifysgol Lerpwl)

**Dogfennau atodol:**

LJC(6)-23-24 - Papur 17 - Papur briffio y Gwasanaeth Ymchwil [Saesneg yn unig]

LJC(6)-23-24 - Papur 18 - Papur briffio atodol y Gwasanaeth Ymchwil [Saesneg yn unig]

LJC(6)-23-24 - Papur 19 - Nodyn Briffio gan yr Athro Thomas Horsley [Saesneg yn unig]

LJC(6)-23-24 - Papur 20 - Nodyn Briffio Atodol gan yr Athro Thomas Horsley [Saesneg yn unig]

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 08 Gorffennaf 2024

## SL(6)499 – Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2024

### Gweithdrefn: Gwneud Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 i adlewyrchu newidiadau a wnaed gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017.

Ychwanegwyd cyfeiriadau at y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a'r Swyddfa Fyfyrwyr. Dilëwyd cyfeiriadau at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009

**Fe'u gwnaed ar:** 19 Mehefin 2024

**Fe'u gosodwyd ar:** 21 Mehefin 2024

**Yn dod i rym ar:** 01 Awst 2024

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 08 Gorffennaf 2024

## SL(6)500 – Rheoliadau Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) 2024

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 146 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf 2022"), sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn Neddf 2022, o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth ynddi, neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth ynddi.

Mae Deddf 2022 yn sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, yn diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ac yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â rheoleiddio a chyllido addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol ac isddeddfwriaeth er mwyn adlewyrchu'r darpariaethau yn Neddf 2022.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:** 01 Awst 2024

# SL(6)498 – Rheoliadau Rhestr Ardrethu Ganolog (Cymru) (Diwygio) 2024

## Cefndir a diben

Mae Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005") yn rhagnodi cynnwys y rhestr ardrethu annomestig ganolog ar gyfer Cymru. Enwir personau dynodedig (cwmnïau sydd yn drethdalwr mewn perthynas â hereditamentau'r rhestr ganolog) yn yr Atodlen i Reoliadau 2005. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2005 i ddiweddaru cyfeiriadau at bersonau dynodedig ac i hepgor y rhai nad ydynt bellach yn dalwyr ardrethi'r rhestr ganolog.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 8 o Reoliadau 2005 i newid enw "British Telecommunications plc" ym mhob lle y mae'n ymddangos, gan gynnwys yn rheoliad 8(5)(b) o Reoliadau 2005. Fodd bynnag, nid yw'r enw "British Telecommunications plc" yn ymddangos yn rheoliad 8(5)(b) o Reoliadau 2005; yn hytrach, mae'n ymddangos ar ddiwedd rheoliad 8(5), sy'n berthnasol i reoliad 8(5)(a) a rheoliad 8(5)(b).

2. **Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol**

Mae rheoliad 16 yn hepgor "The British Waterways Board" o golofn gyntaf Rhan 10 o'r Atodlen i Reoliadau 2005. Mae hyn yn golygu bod eitem yn ymddangos yn ail golofn Rhan 10 nad oes unrhyw berson dynodedig wedi'i enwi ar ei chyfer. Byddai'n ddefnyddiol pe gellid cadarnhau ai dyna oedd y bwriad neu a ddylid hepgor y ddwy eitem yn rhes gyntaf y tabl.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni gynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

> *Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad. Mae Rheoliadau 2024 yn darparu ar gyfer diwygiadau gweinyddol na fyddant yn cael unrhyw effaith ymarferol ar Asiantaeth y Swyddfa Brisio na thalwyr ardrethi'r rhestr ganolog.*

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ni gynhaliodd Llywodraeth Cymru asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

> *Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi ar gyfer Rheoliadau 2024 gan eu bod yn gwneud diwygiadau ffeithiol i ddiweddaru Rheoliadau 2005 ac nad ydynt yn newid effaith y polisi. Mae hyn yn cyd-fynd â'r polisi a nodir yng Nghod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwyntiau adrodd technegol yn unig.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**27 Mehefin 2024**

# SL(6)501 – Rheoliadau Llywodraethu Digidol (Cyrff Cymreig) 2024

## Cefndir a Diben

Mae Rhan 5 o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 ("Deddf 2017") yn caniatáu i bersonau penodedig a restrir yn yr Atodlenni i'r Ddeddf rannu gwybodaeth at ddibenion penodol.

Mae adran 56(1) o Ddeddf 2017 yn caniatáu i berson penodedig rannu gwybodaeth â phersonau penodol eraill at ddibenion atal twyll yn erbyn awdurdodau cyhoeddus.

Mae Rhan 2 o Atodlen 8 yn cynnwys rhestr o gyrff Cymreig a bennir at ddibenion adran 56(1).

Mae'r Rheoliadau hyn yn dileu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o'r rhestr honno ac yn rhoi'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yn ei le.

## Y weithdrefn

Cadarnhaol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni chaiff Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Rheoliadau yn datgan fel a ganlyn mewn perthynas ag Asesiad Effaith Rheoleiddiol:

> *Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. …"*

Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau yn anghyson. Mae Adran 6 (Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)) yn nodi fel a ganlyn:

> *"Gan fod y Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau ffeithiol i ddiweddaru is-ddeddfwriaeth ac nad yw'r diwygiadau'n newid y polisi (na'i effaith) mewn unrhyw ffordd arwyddocaol na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol, nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, roedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) a wnaed i gyd-fynd â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) adeg ei chyflwyno i'r Senedd, yn asesu'r costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Comisiwn."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau yn nodi'r canlynol yn adran 2 (Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad):

> *"Bydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn dymuno nodi bod y Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf 2017."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru i bwynt 1, uchod.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**3 Gorffennaf 2024**

Eitem 4.1

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

–

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

–

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r

1 Gorffennaf 2024

Annwyl Rebecca

Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024

Diolch am eich llythyr ateb cyflym (ar 27 Mehefin 2024), mewn ymateb i'r llythyr a anfonwyd atoch ddydd Llun diwethaf, 24 Mehefin, mewn perthynas â Rheoliadau Caffael (Cymru) drafft. Roeddem yn gallu ystyried yr ohebiaeth yn ein cyfarfod y prynhawn yma. Rydym yn croesawu ac yn gwerthfawrogi eich ymgysylltiad amserol â ni wrth i ni gyflawni ein rhwymedigaethau i'r Senedd graffu ar y Rheoliadau drafft cyn i chi geisio cymeradwyaeth y Senedd iddynt gael eu gwneud.

Yn anffodus, mae llond llaw o faterion heb eu datrys o hyd. Unwaith eto, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu atoch ar frys cyn dadl yfory ar y Rheoliadau drafft.

Rydym yn nodi eich barn nad yw'n wir bod Llywodraeth Cymru wedi gohirio i Lywodraeth y DU wrth ddatblygu'r Rheoliadau hyn, a'ch bod o'r farn y byddai "partneriaeth adeiladol, a nodweddir gan ffocws ar y cyfleoedd hirdymor ehangach i brynwyr a chyflenwyr" yn ffordd well o ddisgrifio'r berthynas.

O ran pwyntiau adrodd technegol 10 ac 11, rydych wedi dweud wrthym fod y rhestr o gyrff llywodraeth ganolog yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau yn adlewyrchu'r rhestr bresennol o gyrff llywodraeth ganolog yn Atodlen 1 i Reoliadau Contractau Cyhoeddus diwygiedig 2015 (Rheoliadau 2015). Rydych yn datgan bod "hwn yn benderfyniad bwriadol i sicrhau bod cyrff sy'n cael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth bresennol yn parhau i gael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth newydd."

Rydych hefyd wedi dweud wrthym, yn hanesyddol, nad yw Llywodraeth Cymru wedi gallu diwygio enwau cyrff llywodraeth ganolog oherwydd diffyg pwerau perthnasol mewn deddfwriaeth fasnach i wneud y gwelliannau hyn. Yn ogystal, rydych yn datgan bod Llywodraeth Cymru yn archwilio dichonoldeb defnyddio'r pwerau sydd wedi'u cynnwys yn *Neddf Caffael 2023* (Deddf 2023) i

ddiweddaru'r rhestr a nodir yn Atodlen 2 o'r Rheoliadau "gan ystyried, ar yr un pryd, unrhyw risgiau posibl o ran cydymffurfio â rhwymedigaethau masnach ryngwladol".

Mewn perthynas â'r gwahaniaeth rhwng "Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru a Byrddau Iechyd Lleol Cymru" a "Chyrff GIG Cymru", gwnaethoch ddweud wrthym eich bod wedi gwneud penderfyniad bwriadol i adlewyrchu'r rhestr bresennol o gyrff llywodraeth ganolog yn Rheoliadau 2015 "i sicrhau bod cyrff sy'n cael eu cwmpasu gan y ddeddfwriaeth bresennol yn parhau i gael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth newydd, ac i sicrhau nad oes unrhyw amwysedd wrth inni symud at y gyfundrefn newydd".

Rydym yn parhau i fod yn aneglur pam, wrth arfer y pwerau yn Neddf 2023 i wneud rheoliadau newydd, nad achubwyd ar gyfle i ddefnyddio enw cywir Comisiwn y Senedd. Rydym hefyd yn aneglur pam y byddai defnyddio'r enw presennol a chywir yn ei gwneud yn aneglur bod y gyfraith yn parhau i fod yn gymwys i'r corff hwnnw. Ein dealltwriaeth ni yw bod yr un corff yn dod o dan y ddeddfwriaeth newydd boed a ddefnyddir yr enw blaenorol neu bresennol. Yn ein barn ni, byddai'n gliriach bod y gyfraith yn parhau i fod yn gymwys i'r corff hwnnw os defnyddir ei enw presennol.

Ymhellach, rydym yn aneglur sut y gallai gwneud deddfwriaeth newydd sy'n defnyddio enw cywir a phresennol Comisiwn y Senedd beri risg bosibl i gydymffurfio â rhwymedigaethau masnach ryngwladol.

Mae'n siomedig nad ydych wedi rhoi cyngor Llywodraeth y DU i ni ar y mater hwn y gwnaethoch nodi bod Llywodraeth Cymru wedi'i gael a'i bod yn ei ddilyn wrth ddrafftio'r Rheoliadau hyn.

Rydym yn cydnabod bod gan Lywodraeth Cymru fynediad at wybodaeth nad ydym yn ymwybodol ohoni. Fodd bynnag, yn ein barn ni, mae hynny'n dangos bod angen cynnig cymaint o fanylion â phosibl i'r Senedd er mwyn rhoi eglurder llwyr ynghylch pam y mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull wrth ddeddfu sy'n ymddangos yn afreolaidd i ni.

O ran ein pwyntiau adrodd technegol 4 a 5, rydym yn cydnabod eich sylwadau bod y penderfyniad i beidio â diffinio'r termau 'dylanwad sylweddol' yn rheoliad 12(7) ac 'arfer ar y cyd' yn rheoliad 13(8) yn cynnwys ystyriaeth o'r drafft cyfatebol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU yn eu Rheoliadau Caffael 2024. Nodwn hefyd eich bod wedi penderfynu y dylai pob term "ddwyn ei ystyr arferol yn y cyd-destun y dylid ei ystyried ynddo".

Rydych hefyd yn datgan "Os bydd yr angen yn codi, yna gellir rhoi cyd-destun pellach i randdeiliaid drwy arweiniad a chyngor". Gwyddoch fod gwrthfarn, a fynegir yn aml gan y Pwyllgor hwn, y byddai darparu diffiniadau ar wyneb deddfwriaeth yn well ar gyfer sicrwydd cyfreithiol a hygyrchedd, ac na ddylid gadael materion o'r fath i arweiniad.

Os hoffech roi sylwadau a gwybodaeth ychwanegol i'r Pwyllgor, byddem yn croesawu rhagor o ohebiaeth ac, fel bob amser, byddem yn ei hystyried yn ofalus.

O ystyried yr amserlenni sy'n gysylltiedig ag ystyriaeth y Senedd o'r Rheoliadau drafft hyn, byddaf yn gofyn i Glerc y Pwyllgor wneud y trefniadau angenrheidiol i'n gohebiaeth a gyfnewidir fod ar gael i'r holl Aelodau o'r Senedd drwy'r agenda ar gyfer Cyfarfod Llawn yfory.

Yn gywir,



Mike Hedges
Cadeirydd

# SL(6)494 – Cod Ymarfer Rhan 2: Swyddogaethau Cyffredinol

## Cefndir a diben

Mae adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi, a diwygio o bryd i'w gilydd, un neu fwy o godau ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Wrth arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol, rhaid i awdurdod lleol weithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol sydd mewn cod, a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd ynddo.

Mae'r Cod hwn yn nodi'r gofynion a'r canllawiau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithredu yn unol â hwy pan fyddant yn arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan Ran 2 o'r Ddeddf. Mae'n cynnwys:

- dyletswyddau llesiant a hollgyffredinol;
- asesiadau o anghenion y boblogaeth;
- gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar integredig;
- hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector
- ymgysylltu, llais a chydgynhyrchu;
- gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy; a
- chofrestrau o bobl ag amhariad ar eu golwg, pobl ag amhariad ar eu clyw a phobl anabl eraill.

Gosodwyd y Cod hwn yn wreiddiol ar 19 Mawrth 2024, ond cafodd ei dynnu'n ôl ar 18 Ebrill 2024 ar ôl i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gael ei rannu a nododd nifer o wallau ac anghysondebau yn y ddogfen.

## Gweithdrefn

Drafft Negyddol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os, o fewn 40 niwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodir y drafft, bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod drafft, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r Cod.

Os na wneir penderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft), a daw'r Cod i rym ar ddiwrnod a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod hwn:

1. Ym mharagraff 5 o'r Cod, nodir bod gofynion wedi'u mynegi yn y Cod fel "rhaid" neu "ni chaiff"/"ni chaniateir" mewn print trwm, a bod canllawiau wedi'u mynegi fel "dylai" neu "ni ddylai" mewn fformat arferol. Fodd bynnag, defnyddir y gair "angen" mewn sawl man yn y Cod ac mae'r cyd-destun yn awgrymu y gallai fod bwriad i osod gofyniad neu roi canllawiau. Os felly, efallai mai "rhaid" neu "ni chaiff"/"ni chaniateir" mewn print trwm neu "dylai" neu "ni ddylai" oedd yr ymadrodd cywir i'w ddefnyddio yn hytrach nag "angen". Er enghraifft, ym mharagraff 44 mae'n nodi, "Bydd angen i'r cymorth fod yn briodol i'w hoedran a'u dealltwriaeth" ac ym mharagraff 351 mae'n nodi "Mae angen sicrhau bod protocolau ar waith fel y gall hyn ddigwydd ac y gellir adolygu'r broses yn rheolaidd". A yw'r defnydd o "angen" yn y math hwn o gyd-destun yn y Cod yn fwriadol oherwydd ni fwriedir iddynt fod yn ofynion neu'n ganllawiau cyfreithiol?

2. Yn yr Eirfa ar dudalennau 3 a 4 o'r testun Saesneg, diffinnir y termau "area" a "region/regional" mewn perthynas ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a byrddau partneriaeth rhanbarthol yn y Cod. Fodd bynnag, defnyddir y term "locality" hefyd yng nghyd-destun yr awdurdodau neu'r byrddau hynny er na roddwyd ystyr iddo yn y Cod. Er enghraifft, ym mharagraff 299 mae'n nodi "Local authorities must promote and publicise the service throughout the locality". Nid yw'n glir a ddylid bod wedi defnyddio'r term "area" neu "region" yn y mannau hynny, neu a oes gwahaniaeth ystyr rhwng "locality" ac "area" neu "region". Rydym yn fod y testun Cymraeg wedi defnyddio'r term diffinedig "ardal" ("area") yn y lleoedd sy'n cyfateb i "locality" yn y testun Saesneg.

3. Ym mharagraff 83, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn ail frawddeg y paragraff hwnnw, yn y testun Saesneg, mae'n cyfeirio'n anghywir at "Chapter 2Bb of this Code". Ond yn y testun Cymraeg mae'n cyfeirio'n gywir at "Pennod 2B o'r Cod hwn" ac felly mae rhif y Bennod yn wahanol yn y cyfeiriadau.

4. Ym mharagraff 230, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, yn y frawddeg olaf, mae'n nodi "the different types of organisations and approaches that fall under section 16 of the Act". Ond yn y testun Cymraeg, mae'r geiriau "and approaches" ar goll o ystyr y frawddeg.

5. Ym mharagraff 251, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "to reach out, and engage as many and as diverse a range of people as possible". Ond, yn y testun Cymraeg, mae'r ymadrodd "a chynnwys y bobl hyn" wedi'i ddefnyddio sy'n awgrymu cynnwys pobl eraill yn hytrach nag ymgysylltu â hwy. Mewn mannau eraill yn y Cod, mae "ymgysylltu" wedi cael ei ddefnyddio'n rheolaidd i gyfleu ystyr "engage" fel ym mharagraff 253.

6. Ym mharagraff 276, mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "(see Chapter 2 of this Code)". Ond yn y testun Cymraeg mae rhif y Bennod ar goll fel ei fod ond yn nodi "(gweler Pennod o'r Cod hwn)" y gellid ei ddehongli i olygu "(see a Chapter of this Code)" yn Saesneg.

7. Ym mharagraff 283, defnyddir yr ymadrodd "gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy" yn y ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae'r term diffiniedig "y gwasanaeth" wedi'i ddefnyddio ar gyfer yr ymadrodd hwnnw o baragraff 275 ymlaen, gan gynnwys yn y paragraffau yn union cyn ac ar ôl paragraff 283. Felly, mae'n anghyson â sut y drafftiwyd y darpariaethau eraill lle mae'r term diffiniedig wedi'i ddefnyddio wrth gyfeirio at yr un gwasanaeth.
   Ymateb y Llywodraeth

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 1 Gorffennaf 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Cod Ymarfer Rhan 2: Swyddogaethau Cyffredinol**

Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am yr amser sydd wedi ei neilltuo i graffu ar y Cod Ymarfer drafft, a'r sylw a roddwyd i fanylion wrth wneud hynny.

Mae'r Cod Ymarfer wedi ei ddyroddi o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. O dan adran 145(2) caiff Cod osod gofynion neu caiff gynnwys canllawiau (neu'r ddau). Mae'r Cod hwn yn cynnwys y ddau ac mae'r pwyntiau defnyddiol a godwyd gan y Pwyllgor yn ymwneud yn unig â darpariaethau'r Cod nad ydynt yn gosod gofynion. Er hynny, mae'r Llywodraeth yn nodi'r materion a godwyd.

Fodd bynnag, cynigir gyda pharch mai mân faterion golygyddol yw'r rhain ac, er eu bod yn faterion i'w cywiro, nad ydynt yn newid gweithrediad y Cod na'i effaith.

O ystyried y sylw hwn, mae'r Llywodraeth yn cynnig i'r Pwyllgor fod y Llywodraeth yn gwneud y cywiriadau golygyddol, fel y'u hamlinellir yn fanylach isod, cyn dyroddi'r Cod Ymarfer. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod hwn yn ymateb pragmatig a chymesur a fydd yn sicrhau bod y Cod Ymarfer yn cael ei gyhoeddi heb amhendantrwydd, nac oedi diangen.

**Pwynt craffu 1:** Bydd ail frawddeg paragraff 44 yn cael ei diwygio o "Bydd angen i'r cymorth fod yn briodol …" i "Dylai'r cymorth fod yn briodol …", gan fod y datganiad hwn yn dilyn y canllaw yn y frawddeg flaenorol lle y defnyddir 'dylai'.

Bydd paragraff 351 o'r Cod yn cael ei ddiwygio i nodi "Dylid rhoi protocolau ar waith fel y gall hyn ddigwydd ac y gellir adolygu'r broses yn rheolaidd".
Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr enghreifftiau eraill lle y defnyddir yr ymadrodd "angen" yn y Cod ac wedi dod i'r casgliad bod y term, ym mhob achos, yn glir o ran ei ddiben ac na fwriedir iddo osod gofyniad na chanllawiau cyfreithiol.

**Pwynt craffu 2:** Mae'r Llywodraeth wedi nodi sylwadau'r Pwyllgor am y defnydd o'r gair "locality", nas diffinnir yn yr Eirfa, ac wedi ystyried y chwe defnydd o'r term hwn yn y Cod.
Ym mharagraff 230 yn y testun Saesneg, bwriad "what works best in any given locality or region" yw cyfleu ymdeimlad o'r hyn sy'n gweithio orau ar draws yr awdurdodau lleol yn y rhanbarth. Felly, bydd y cyfeiriad at "what works best in any given locality or region" yn cael ei ddiwygio i "what works best in the region" (yn Gymraeg, "yr hyn sy'n gweithio orau yn y rhanbarth").
Mae'r pum defnydd arall o'r term yn digwydd ym Mhennod 6 o'r Cod Ymarfer, sy'n ymdrin â'r gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy. Mae'r defnydd o'r term "locality" yma yn gyfystyr â defnyddio'r term "region" diffiniedig, a bydd y term yn cael ei newid yn unol â hynny, yn y ddwy iaith.

**Pwynt craffu 3:** Bydd paragraff 83 o'r testun Saesneg yn cael ei ddiwygio i gyfeirio at "Chapter 2B of this Code."

**Pwynt craffu 4:** Bydd paragraff 230 o'r testun Cymraeg yn cael ei ddiwygio i “gwahanol fathau o sefydliadau a dulliau gweithredu”, sy'n cyfateb i'r testun Saesneg.

**Pwynt craffu 5:** Bydd paragraff 251 o'r testun Cymraeg yn cael ei ddiwygio i roi “ac ymgysylltu â'r bobl hyn” yn lle “a chynnwys y bobl hyn” fel ei fod yn cyfateb i’r testun Saesneg.

**Pwynt craffu 6:** Bydd paragraff 276 o'r testun Cymraeg yn cael ei ddiwygio i “(gweler pennod 2 o'r Cod hwn)”, sy'n cyfateb i'r testun Saesneg.

**Pwynt craffu 7:** Bydd paragraff 283 yn cael ei ddiwygio i ddefnyddio'r term diffiniedig “y gwasanaeth” wrth gyfeirio at y “gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy” er mwyn bod yn gyson â’r modd y drafftiwyd y paragraffau yn union cyn paragraff 283 ac ar ei ôl.

Bydd cywiriadau fformadu, cyfwerthedd a theipograffyddol, fel y'u nodir yn eich dogfen sylwadau ychwanegol, hefyd yn cael sylw cyn i'r Cod gael ei gyhoeddi.

# SL(6)495 – Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer

## Cefndir a diben

Mae'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer ("y Cod") yn nodi egwyddorion a safonau ar gyfer comisiynu gofal a chymorth gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG, y cyfeirir atynt yn y Cod fel "partneriaid statudol".

Gosodwyd y Cod gerbron y Senedd yn wreiddiol ar 19 Mawrth 2024 cyn cael ei dynnu'n ôl ar 18 Ebrill 2024 i fynd i'r afael â gwallau a nodwyd yn y drafft.

## Y weithdrefn

Drafft Negyddol

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os, o fewn 40 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodir y drafft, bydd y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r cod drafft, rhaid i Weinidogion Cymru beidio â dyroddi'r Cod.

Os na wneir penderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft), a daw'r Cod i rym ar ddiwrnod a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r Cod hwn.

1. Gall y materion canlynol o ran cyfeiriadau gael effaith ar hygyrchedd y Cod:
    a. Ym mharagraff 1.19, mae cyfeiriad at "Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru)". Mae'r cyfeiriad hwn yn anghyflawn gan na roddir blwyddyn.
    b. Ym mharagraff 1.65, nid oes troednodyn na hyperlinc ar gyfer y cyfeiriad at Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
    c. Ym mharagraff 1.94, nid oes troednodyn na hyperlinc ar gyfer y cyfeiriad at yr adnodd hunanasesu a hyfforddiant rhagarweiniol.
    d. Yn yr Eirfa, mae paragraff olaf y cofnod ar gyfer "Gofalwr" yn cyfeirio at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 fel "Deddf 2014" yn

hytrach na defnyddio'r term diffiniedig "y Ddeddf" (a ddefnyddir yn gywir mewn paragraffau cynharach yn y cofnod hwn).

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 1 Gorffennaf 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth yng Nghymru: Cod Ymarfer**

Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am yr amser sydd wedi ei neilltuo i graffu ar y Cod Ymarfer drafft, a’r sylw a roddwyd i fanylion wrth wneud hynny.

Mae’r Cod Ymarfer wedi ei ddyroddi o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. O dan adran 145(2) caiff Cod osod gofynion neu caiff gynnwys canllawiau (neu'r ddau). Mae'r Cod hwn yn cynnwys y ddau ac mae'r pwyntiau defnyddiol a godwyd gan y Pwyllgor yn ymwneud yn unig â darpariaethau'r Cod nad ydynt yn gosod gofynion. Er hynny, mae'r Llywodraeth yn nodi'r materion a godwyd.

Fodd bynnag, cynigir gyda pharch mai mân faterion golygyddol yw’r rhain ac, er eu bod yn faterion i’w cywiro, nad ydynt yn newid gweithrediad y Cod na’i effaith.

O ystyried y sylw hwn, mae’r Llywodraeth yn cynnig i’r Pwyllgor fod y Llywodraeth yn gwneud y cywiriadau golygyddol, fel y’u hamlinellir yn fanylach isod, cyn dyroddi’r Cod Ymarfer. Mae’r Llywodraeth o’r farn bod hwn yn ymateb pragmatig a chymesur a fydd yn sicrhau bod y Cod Ymarfer yn cael ei gyhoeddi heb amhendantrwydd, nac oedi diangen.

**Pwynt craffu 1:**

**a.** Nid oes dyddiad wedi ei gynnwys yn y cyfeiriad at "Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru)" ym mharagraff 1.19, gan nad yw'r Rheoliadau wedi eu gwneud eto. Cynigir diwygio paragraff 1.19 fel a ganlyn, er mwyn i hynny fod yn glir.
"1.19 Dylai byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau’r GIG fod yn ymwybodol y bydd Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) a’r canllawiau statudol cysylltiedig (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr yng Nghymru – Canllawiau Statudol), y mae disgwyl iddynt gael eu gwneud/dod i rym yn hydref 2024, hefyd yn gymwys i gaffael gwasanaethau iechyd..."

Bydd Rheoliadau Gwasanaethau Iechyd (Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr) (Cymru) yn cael eu gwneud o dan adran 10A o Ddeddf y GIG (Cymru) 2006. Mewnosododd adran 3 o Ddeddf Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 2024 (y Ddeddf gaffael) bŵer i wneud y rheoliadau hyn yn Neddf y GIG (Cymru) 2006. Yn ogystal, mewnosododd adran 2 o'r Ddeddf gaffael bŵer i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddatgymhwyso caffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru o'r gyfundrefn gaffael newydd o dan y Ddeddf gaffael. Dibynnir ar y pŵer hwn i wneud y rheoliadau hyn hefyd.

**b.** Bydd troednodyn/hyperddolen yn cael eu hychwanegu ym mharagraff 1.68 ar gyfer y cyfeiriad at Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ym mharagraff 1.68 y mae'r unig gyfeiriad at y Mesur yn y Cod.

**c.** Bydd troednodyn/hyperddolen yn cael eu hychwanegu ym mharagraff 1.94 ar gyfer y cyfeiriad at yr offeryn hunanasesu a'r hyfforddiant rhagarweiniol.

**d.** Yn yr Eirfa yn y testun Saesneg, bydd paragraff olaf y cofnod ar gyfer "Carer" yn cael ei ddiwygio i gyfeirio at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gan ddefnyddio'r term diffiniedig "the Act".

**Eluned Morgan AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Cabinet Secretary for Health and Social Care**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

SeneddDCC@senedd.cymru

1 Gorffennaf 2024

Annwyl Mike,

Fel y gwyddoch, yn ystod yr haf yn 2022, gwnaeth y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ar y pryd ymgynghori ar gynigion i wella iechyd amgylcheddau bwyd yng Nghymru: Amgylchedd bwyd iach | LLYW. CYMRU.

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod ichi am yr ymgynghoriad yr wyf wedi'i gyhoeddi ar y dull gorfodi a thestun y rheoliadau drafft ar gyfer cyfyngiadau ar leoli a chyfyngiadau ar hyrwyddiadau pris yng Nghymru, sy'n cyfateb i raddau helaeth i Reoliadau Bwyd (Hyrwyddo a Lleoli) (Lloegr) 2021, yr wyf yn bwriadu eu cyflwyno gerbron y Senedd cyn diwedd 2024. Y bwriad yw y bydd cyfnod gweithredu o 12 mis, a fydd yn caniatáu amser i'r diwydiant wneud y newidiadau angenrheidiol cyn iddynt ddod i rym tuag at ddiwedd 2025, yn amodol ar gael cymeradwyaeth y Senedd. Efallai yr hoffech hefyd nodi y Datganiad Ysgrifenedig yr wyf wedi'i lunio er mwyn cyhoeddi lansio'r ymgynghoriad.

Yn dilyn ymgynghoriad ar wahân gan Lywodraeth Cymru yn 2022 ar gynnig i gyfyngu ar werthu diodydd egni i blant a phobl ifanc o dan 16 oed, rwyf hefyd yn achub ar y cyfle hwn i gynnal ymarfer galwad am dystiolaeth i ddeall rhagor am effeithiau yfed diodydd egni ar blant, gan gynnwys yr effeithiau ar gymdeithas yn ehangach.

Edrychaf ymlaen at glywed eich barn ac at gydweithio ar y maes pwysig hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Yn gywir



**Eluned Morgan AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Care

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Bydd unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn cael ei hateb yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi wrth ymateb.

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Cynigion i wneud yr amgylchedd bwyd yng Nghymru yn iachach** |
| **DYDDIAD** | **01 Gorffennaf 2024** |
| **GAN** | **Eluned Morgan AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol** |

Heddiw, rwy’n lansio ymgynghoriad ar y dull gorfodi arfaethedig ar gyfer deddfwriaeth i gyfyngu ar hyrwyddo cynhyrchion bwyd â lefelau uchel o fraster, siwgr a halen yn ôl lleoliad a phris, ynghyd â thestun y Rheoliadau drafft.

Rwy’n ymrwymedig i gefnogi pobl yng Nghymru i sicrhau mai’r dewis iach yw’r dewis hawdd pan fyddant yn siopa bwyd ac yn bwyta allan.

Mae’r ymgynghoriad yn manylu ar y ddeddfwriaeth arfaethedig sy’n gysylltiedig â cham cyntaf y camau gweithredu yr ydym yn bwriadu eu cymryd i wella ein hamgylchedd bwyd. Mae’r dystiolaeth yn dangos bod cynhyrchion bwyd nad oes iddynt lawer o werth maeth yn cael eu hyrwyddo mewn modd anghymesur yn fwy na chynhyrchion iachach ar hyn o bryd. Yn anffodus, mae’r hyrwyddiadau hyn yn effeithiol iawn wrth ddylanwadu ar ba fwyd a diod y byddwn yn eu prynu. Rwy’n benderfynol o gefnogi’r diwydiant i weithredu’n gyflymach ac ar raddfa ehangach i gynhyrchu a marchnata cynhyrchion bwyd a diod iachach.

Mae’r Rheoliadau drafft yn amlinellu cyfyngiadau o ran lleoli cynhyrchion sy’n llai iach, a chynnal hyrwyddiadau pris o gynhyrchion o'r fath, yn ogystal â chyfyngiadau ar ail-lenwi diodydd ysgafn llawn siwgr. Er mwyn sicrhau bod y gwaith o gyflawni a gorfodi yn mynd rhagddo mor ddirwystr â phosibl, mae’r dull gweithredu arfaethedig yn cyd-fynd â’r ddeddfwriaeth gyfatebol yn Lloegr. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi nodi ei chynigion ar gyfer cyflwyno mesurau tebyg.

Ar hyn o bryd, disgwylir i’r Rheoliadau gael eu gosod yn y Senedd cyn diwedd 2024 ac, ar yr amod bod y Senedd yn eu cymeradwyo, byddant yn dod i rym yn 2025, yn dilyn ffenestr gweithredu o 12 mis ar gyfer busnesau yr effeithir arnynt a chyrff gorfodi. Mae’r ddeddfwriaeth hon yn gam sylweddol tuag at ein huchelgais ar gyfer amgylchedd bwyd iachach, a bydd yn helpu i annog y diwydiant bwyd i gymryd camau tuag at ddarparu cynnig bwyd sy’n fwy cytbwys i bobl a chymunedau yng Nghymru.

Bydd swyddogion yn gweithio yn agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod canllawiau clir a chynhwysfawr ar gael ar gyfer y diwydiant bwyd erbyn i'r ddeddfwriaeth gael ei gosod.

Yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn 2022 ar gynnig i gyfyngu ar werthu diodydd egni i blant a phobl ifanc o dan 16 oed, rwyf hefyd yn achub ar y cyfle hwn i gynnal galwad am dystiolaeth ynghylch arferion yfed diodydd egni ymhlith plant. Bydd hyn hefyd o gymorth er mwyn deall rhagor am yr effeithiau cysylltiedig, gan gynnwys yr effaith ar gymdeithas yn ehangach.

Gyda hyn, byddaf yn nodi fy nghynigion ar gyfer cyflwyno mesurau arfaethedig eraill a oedd wedi'u cynnwys yn ein hymgynghoriad ar Amgylchedd Bwyd Iach yn 2022. Rwyf hefyd yn bwriadu datblygu ystod ehangach o ddulliau o gefnogi'r sector i gynhyrchu a hyrwyddo opsiynau bwyd iach, sy'n fforddiadwy, i bawb.

Mae'r ymgynghoriad i'w gael yn: Cynigion i wneud yr amgylchedd bwyd yn iachach

Department for Science, Innovation & Technology

Ministerial Support Team
Department for Science, Innovation and Technology
100 Parliament Street
London SW1A 2BQ

www.gov.uk/dsit

1 July 2024

[redacted]
seneddLJC@senedd.wales

Our Ref: TOB2024/05951/FA

Dear [redacted],

Thank you for your correspondence of 15 March to the Department for Science, Innovation and Technology. This response is from an official in accordance with procedures for handling correspondence during the pre-election period and I sincerely apologise for the delay in you receiving a response.

The Data Protection and Digital Information Bill did not complete parliamentary passage ahead of prorogation, and therefore did not receive Royal Assent.

Yours sincerely,

[redacted]



POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Julia Lopez AS
Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol

15 Mawrth 2024

Annwyl Julia

Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol

Yn ein cyfarfod o'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 11 Mawrth 2024 gwnaethom drafod llythyr dyddiedig 8 Mawrth 2024 gan y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Prif Weinidog Cymru, lle mae'n ymateb i adroddiad fy Mhwyllgor ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelu Data a Gwybodaeth Ddigidol (adroddiad ar Femorandwm Rhif 3).

Mae'r llythyr yn codi nifer o faterion y byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o eglurder yn eu cylch. Byddai unrhyw fanylion y byddech yn gallu eu darparu yn ddefnyddiol iawn i'm Pwyllgor wrth inni ystyried memoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil. O ystyried bod ein gwaith yn amser-gritigol ac yn gysylltiedig â thaith y Bil drwy Senedd y DU, byddem yn croesawu ymateb erbyn 25 Ebrill 2024.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Atodiad

**Cwestiwn 1.** O ran cydsyniad deddfwriaethol, hyd yma rydym wedi bod â safbwyntiau gwrthgyferbyniol i Lywodraeth Cymru ynghylch a yw diben cymalau 74 a 78 (cymalau 54 a 56 fel y'u cyflwynwyd) sy'n ymwneud â Gwasanaethau Dilysu Digidol (DVS) yn gwneud darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Yn ei lythyr atom ar 8 Mawrth 2024, cadarnhaodd Prif Weinidog Cymru fod Llywodraeth Cymru yn parhau i fod o'r farn bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, i'r graddau y maent yn ymwneud â materion datganoledig gwasanaethau cyhoeddus, yr economi a busnes. Dywedodd y Prif Weinidog wrthym hefyd:

> *"Yn wir, ar 6 Chwefror ysgrifennodd Julia Lopez AS, y Gweinidog Gwladol dros Ddata a Seilwaith Digidol, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am eu dadansoddiad eu hunain o ran datganoli ar y Rhan hon o'r Bil. Yn flaenorol, roeddent o'r farn bod darpariaethau yn y Rhan hon o'r Bil wedi'u cadw'n ôl o dan y mater a gedwir yn ôl ar gyfer gwasanaethau rhyngrwyd, ac felly nad oedd angen cydsyniad y Senedd. Roedd ei llythyr yn nodi y dylid ceisio cydsyniad dan Ganllawiau ar Ddatganoli Cymru wrth gyflwyno neu osod swyddogaethau a gedwir yn ôl ar awdurdod Cymreig datganoledig. Ychwanegodd, o ganlyniad, er bod Llywodraeth y DU yn credu bod y swyddogaethau hyn wedi'u cadw'n ôl, fod Llywodraeth y DU o'r farn yn awr y dylid ceisio cytundeb ar gyfer cymal 74 a chymal 78(3).*

**a)** Er mwyn ein helpu i ddeall, a fyddech cystal â rhannu'r ohebiaeth a anfonwyd gennych at Lywodraeth Cymru ar 6 Chwefror 2024 gyda ni.

Yn ei lythyr, mae Prif Weinidog Cymru yn tynnu sylw at eich barn barhaus bod cymalau 74 a 78 wedi'u cadw'n ôl. Fodd bynnag, mae'r Prif Weinidog hefyd yn egluro mai Nodyn Canllaw Llywodraeth y DU ar Ddatganoli, Deddfwriaeth Sylfaenol Seneddol a Chynulliad sy'n effeithio ar Gymru, sy'n cynnwys gofyniad i geisio cydsyniad pan fo darpariaethau mewn Bil yn rhoi neu'n gosod swyddogaethau *wedi'u cadw'n ôl* ar awdurdod datganoledig yng Nghymru. Ymddengys bod hwn yn ofyniad gwahanol i gonfensiwn Sewel, sy'n cydnabod na fydd Senedd y DU fel arfer yn deddfu mewn perthynas â Chymru o ran materion *datganoledig*. Mae hefyd yn wahanol i ofynion Rheolau Sefydlog y Senedd, yn benodol Rheolau Sefydlog 29.1 sy'n nodi bod yn rhaid i "[F]il perthnasol", at ddiben defnyddio Rheol Sefydlog 29, wneud darpariaeth at unrhyw ddiben "o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd" (neu addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd).

**b)** Byddem yn croesawu eich barn ar y gwahanol feini prawf a dulliau gweithredu y mae'n ymddangos eu bod yn cael eu cymhwyso gan Reolau Sefydlog Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r Senedd wrth asesu a oes angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar ddarpariaethau Bil.

**Cwestiwn 2.** Mewn ymateb i argymhelliad 3 yn ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3, o ran "[p]ryderon [Llywodraeth Cymru] yn ymwneud â'r polisi cyfansoddiadol" gyda darpariaethau'r Gofrestr Asedau Tanddaearol Cenedlaethol (NUAR) yn y Bil, mae'r Prif Weinidog yn datgan yr

ysgrifennodd atoch ar 23 Ionawr 2024 yn nodi pryderon Llywodraeth Cymru ynghylch dull deddfwriaethol arfaethedig Llywodraeth y DU ac effaith darpariaethau NUAR ar bwerau Gweinidogion Cymru. A ydych wedi ymateb i bryderon Llywodraeth Cymru ac, os felly, a fyddech cystal â rhannu'r ohebiaeth â ni? Os na, pryd yr ydych yn rhagweld y byddwch yn ymateb i Lywodraeth Cymru?

Cwestiwn 3. Mewn ymateb i argymhelliad 8 yn ein hadroddiad ar Femorandwm Rhif 3, dywedodd y Prif Weinidog wrthym nad yw Llywodraeth Cymru wedi cael copi o asesiad risg Llywodraeth y DU ar effaith bosibl y Bil ar benderfyniad y DU ar ddigonolrwydd data'r UE a'ch bod wedi gwrthod ei rannu oherwydd ei bod yn bwysig i swyddogion Llywodraeth y DU allu cynnal trafodaethau didwyll yn ystod y broses o lunio polisïau. Byddwch yn ymwybodol y gallai fod goblygiadau i Gymru pe bai'r penderfyniad digonolrwydd yn cael ei golli. A fyddech cystal â rhannu'r ohebiaeth a anfonwyd gennych at Brif Weinidog Cymru ar 1 Mawrth 2024 gyda ni a/neu egluro ymhellach eich penderfyniad i beidio â rhannu eich asesiad risg â Llywodraeth Cymru.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet**
**Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-RE-5685-24

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

2 Gorffennaf 2024

Annwyl Peredur

**Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)**

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod Memorandwm Esboniadol diwygiedig wedi'i gyhoeddi cyn trafodion Cyfnod 3 ar gyfer Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), ac mae copi wedi'i gynnwys gyda'r llythyr hwn.

Byddwch yn ymwybodol fy mod wedi derbyn holl argymhellion Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid, ac roedd rhai ohonynt yn golygu gwneud diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol. Mae'r rhain fel a ganlyn:

O ran argymhelliad 4, gwnaed newidiadau i Dabl 8.2 a pharagraffau 8.91, 8.92 ac 8.128 i fynd i'r afael ag anghysondebau a nodwyd gan y Pwyllgor ym mharagraff 53 o'ch adroddiad. Mae'r holl ffigurau perthnasol eraill a ddyfynnir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru i sicrhau cysondeb rhwng y testun a'r tablau.

O ran argymhelliad 5, mae paragraff 8.15 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddaru gyda gwybodaeth ychwanegol am y goblygiadau posibl pe bai'r cylchoedd ailbrisio ardrethi annomestig yng Nghymru yn wahanol i'r hyn a geir yn Lloegr.

O ran argymhellion 6 a 7, mae paragraffau 8.125 i 8.127 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u diweddaru i egluro'r gost amcangyfrifedig i dalwyr ardrethi o gydymffurfio â'r dyletswyddau newydd i ddarparu gwybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, a darparu rhagor o wybodaeth ynghylch goblygiadau amseriad cyflwyno'r gwasanaeth ar-lein cysylltiedig.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwnaed nifer o welliannau gan y llywodraeth i'r Bil yn ystod Cyfnod 2 sydd hefyd wedi golygu gwneud newidiadau i'r Memorandwm Esboniadol. Yn benodol, bydd y Pwyllgor yn nodi, o ganlyniad i'r gwelliant gan y llywodraeth sy'n newid dyddiad dechrau cylchoedd ailbrisio'r dreth gyngor o 2030 i 2028, y bydd dau gylch ailbrisio nawr yn digwydd dros gyfnod dadansoddi 10 mlynedd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, yn hytrach nag un cylch o dan y ddarpariaeth wreiddiol. Mae cyfanswm y costau amcangyfrifedig yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u diweddaru o £59 miliwn yn y fersiwn a gyhoeddwyd pan gyflwynwyd y Bil i £106 miliwn yn y fersiwn ddiwygiedig i adlewyrchu'r newid hwn, a mân newidiadau eraill.

Mae nifer o ddiwygiadau eraill hefyd wedi'u gwneud i'r Memorandwm Esboniadol i adlewyrchu ymatebion y llywodraeth i argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad. Rhestrir yr holl ddiwygiadau a wnaed i'r Memorandwm Esboniadol yn Atodiad A isod.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir



**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office

**Atodiad A**

**Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) – Diwygiadau a wnaed i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu ymatebion y llywodraeth i argymhellion Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

| **Argymhelliad** | **Ymateb y llywodraeth** | **Diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol** |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 2:**<br>Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil i gynnwys gofyniad i gynnal adolygiad statudol o'r defnydd o bwerau o dan adrannau 5 [rhyddhadau ardrethi annomestig], 9 [esemptiadau ardrethi annomestig], 10 [lluosyddion ardrethu annomestig], 13 [osgoi ardrethi annomestig] a 18 [disgowntiau'r dreth gyngor] o'r Bil. Dylai'r adolygiad gael ei gynnal cyn diwedd y Seithfed Senedd a dylai gynnwys:<br>• Asesiad gan Weinidogion Cymru o fecanweithiau deddfwriaethol amgen ar gyfer gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth Cymru yng nghyd-destun rhyddhadau, esemptiadau, lluosyddion a darpariaethau gwrth-osgoi mewn perthynas ag ardrethu annomestig, a disgowntiau'r dreth gyngor; a<br>• Gofyniad i ymgynghori â'r Senedd. | DERBYN MEWN EGWYDDOR.<br>Yn hytrach na chynnwys ymrwymiad i gynnal adolygiad statudol ar wyneb y Bil, bydd y llywodraeth yn diwygio'r Memorandwm Esboniadol ar ôl Cyfnod 2 i gynnwys ymrwymiad i gynnal adolygiad ôl-weithredu o weithrediad ac effaith y ddeddfwriaeth hon cyn diwedd y Seithfed Senedd. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y pwerau perthnasol i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil. | Gwnaed diwygiadau i baragraff 11.5 o Bennod 11 o'r Memorandwm Esboniadol, i gynnwys yr ymrwymiad i gynnal yr adolygiad ôl-weithredu a nodwyd mewn ymateb i'r argymhelliad Cyfnod 1 gan y Pwyllgor. |

**Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) – Diwygiadau a wnaed i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu ymatebion y llywodraeth i argymhellion Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Cyllid**

| Argymhelliad | Ymateb y llywodraeth | Diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 4:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu'r pwyntiau a godwyd ynghylch anghysondebau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a nodir yn yr adran hon, gyda'r bwriad o egluro'r wybodaeth a nodwyd mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. | DERBYN<br>Rydym yn diolch i'r Pwyllgor am ddod â'r rhain i'n sylw. Byddwn yn adolygu hyn er mwyn sicrhau bod y ffigurau'n gyson. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn cael ei ddarparu cyn Cyfnod 3. | Gwnaed newidiadau i Dabl 8.2; paragraff 8.128 a pharagraffau 8.91 ac 8.92 i fynd i'r afael ag anghysondebau a nodwyd gan y Pwyllgor ym mharagraff 53 o'ch adroddiad. Mae'r holl ffigurau perthnasol eraill a ddyfynnir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru i sicrhau cywirdeb a chysondeb rhwng y testun a'r tablau. |
| **Argymhelliad 5:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am y risgiau a'r goblygiadau cost i Gymru, os bydd yn ymwahanu oddi wrth Loegr, o ran amseriad ei hailbrisiadau ardrethi annomestig, ac i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. | DERBYN<br>Fel y mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn egluro, ar hyn o bryd nid yw'n bosibl meintioli'n llawn y costau a'r risgiau a fyddai'n codi yn sgil ymwahanu. Fodd bynnag, mae'n bosibl darparu rhagor o wybodaeth am y goblygiadau sy'n ymwneud ag adnoddau i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, ynghyd â'r risgiau lefel uchel. Bydd manylion ychwanegol yn cael eu cynnwys cyn Cyfnod 3. | Mae gwybodaeth ychwanegol wedi'i chynnwys ym mharagraff 8.15 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Byddai ymwahanu oddi wrth Loegr mewn perthynas â'r cylch ailbrisio yn arwain at gynnydd yn y gofynion o ran adnoddau ym mhob maes prisio yng Nghymru. Mae amcangyfrifon Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn dangos cost ychwanegol o tua £1m fesul cylch ailbrisio. Gall prisiadau rhai mathau o eiddo fod yn llai cadarn, gan arwain at apeliadau a cholli gwerth ardrethol. |
| **Argymhelliad 6:** Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am gyfanswm cost y ddyletswydd newydd i dalwyr ardrethi i ddarparu gwybodaeth gyfredol i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, yn benodol, a yw'r gost o £35 a £20 fesul talwr ardrethi yn ychwanegol at y costau a amcangyfrifir ar hyn o bryd ar gyfer gweithgarwch | DERBYN<br>Mae'r ffigurau'n cynrychioli amcangyfrif cyfartalog o gostau ychwanegol cydymffurfio. Bydd y costau gwirioneddol yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. I rai talwyr ardrethi, ni fydd costau cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd yn golygu costau newydd neu ychwanegol o'u cymharu â'r rhai a delir o dan y system bresennol. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith | Mae'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, fel y'i disgrifiwyd mewn ymateb i'r Pwyllgor yn ystod Cyfnod 1, wedi'i chynnwys ym mharagraff 8.126 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |

| Argymhelliad | Ymateb y llywodraeth | Diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol |
|---|---|---|
| perthnasol, ac i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. | Rheoleiddiol diwygiedig cyn Cyfnod 3. | |
| **Argymhelliad 7:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y costau a'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â system ar-lein newydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Dylai hyn gynnwys pryd y bydd yn cael ei gweithredu a risgiau unrhyw oedi posibl wrth weithredu i dalwyr ardrethi sy'n cydymffurfio â'r gofynion newydd i ddarparu gwybodaeth, ac i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. | DERBYN<br>Nid yw cwblhau ymarfer ailbrisio yn 2026 yn ddibynnol ar lansio'r system ar-lein, gan fod Asiantaeth y Swyddfa Brisio eisoes yn paratoi i ymgymryd â'r ymarfer hwnnw o dan y trefniadau presennol. Bwriedir i'r system sicrhau cynaliadwyedd ailbrisiadau amlach dros y tymor hirach. Nid oes unrhyw risg i dalwyr ardrethi sy'n gysylltiedig ag amseriad y lansiad, oherwydd dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn fodlon ei bod yn rhesymol disgwyl i dalwyr ardrethi gydymffurfio y bydd y dyletswyddau'n dod i rym. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chynnwys, ochr yn ochr â'r amcangyfrif o'r costau a ddarparwyd eisoes, yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig cyn Cyfnod 3. | Mae paragraff 8.125 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddaru i egluro bod proffil cost Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar gyfer y system ar-lein yn seiliedig ar ragdybiaeth y bydd yn lansio yn ystod 2026-27. Mae hyn yn amodol ar gadarnhad wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen.<br><br>Mae paragraff 8.127 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddaru i ddarparu'r esboniad a'r eglurhad ychwanegol, a ddarparwyd mewn ymateb i'r Pwyllgor yn ystod Cyfnod 1, ynghylch goblygiadau amseriad cyflwyno'r gwasanaeth ar-lein. |

**Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) – Diwygiadau a wnaed i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu ymatebion y llywodraeth i argymhellion Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

| Argymhelliad | Ymateb y llywodraeth | Diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 13:**<br>Dylai'r Gweinidog egluro pa weithdrefn craffu fydd yn gymwys i reoliadau a wneir o dan adran 13(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ('Deddf 1992') (fel y'i diwygiwyd). | Bydd rheoliadau a wneir o dan adran 13(1) o Ddeddf 1992 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol fel y'i darperir yn barod yn Neddf 1992. Bydd Tabl 5.1 yn y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r sefyllfa hon. | Mae Tabl 5.1 yn y Memorandwm Esboniadol wedi'i ddiwygio. |

**Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) – Diwygiadau a wnaed i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu gwelliannau Cyfnod 2 gan y llywodraeth**

| **Gwelliant y llywodraeth** | **Effaith y gwelliant** | **Diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol** |
|---|---|---|
| Gwelliant 1 y llywodraeth:<br>Adran 14, tudalen 24, llinell 22, ar ôl 'paragraphs', mewnosoder '1(2),'. | Mae'r gwelliant hwn yn sicrhau bod y weithdrefn gadarnhaol yn parhau i fod yn gymwys i bŵer presennol i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â gosod y swm dyddiol y gellir ei godi ar gyfer hereditamentau gwag cyn i unrhyw ryddhadau gael eu cymhwyso. | Yr unig newid sy'n ofynnol yw mân ddiweddariad a wneir i adlewyrchu effaith y gwelliant yn yr Atodlen Keeling ar gyfer adran 143A(5)(i) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ('Deddf 1988'). |
| Gwelliant 2 y llywodraeth:<br><br>Adran 21, tudalen 33, llinell 27, hepgorer '2029' a mewnosoder '2027'. | Mae'r gwelliant hwn yn disodli cyfeiriad at y flwyddyn 2029 â chyfeiriad at 2027. Bydd hyn yn newid y flwyddyn ddiweddaraf y caiff Gweinidogion Cymru, o dan y pwerau deddfwriaethol presennol, bennu fel y flwyddyn pryd y mae'r rhestr brisio treth gyngor nesaf i gael ei llunio. Y bwriad yw dechrau cylchoedd pum mlynedd ar gyfer ailbrisio'r dreth gyngor yn 2028. | Mae'r Nodiadau Esboniadol wedi'u diweddaru mewn perthynas ag adran 21 'Y weithdrefn ar gyfer llunio rhestrau prisio' i ddisodli cyfeiriad at y flwyddyn 2029 â chyfeiriad at 2027.<br><br>Mae'r Atodlen Keeling, yn enwedig is-adrannau newydd (3A) i (3C) o fewn adran 22B o Ddeddf 1992, hefyd wedi'u diweddaru yn hyn o beth. |
| Gwelliant 3 y llywodraeth:<br>Adran 21, tudalen 33, llinell 31, hepgorer '2030' a mewnosoder '2028'. | Mae'r gwelliant hwn yn newid cyfeiriad at y flwyddyn pan fydd y cylchoedd pum mlynedd ar gyfer ailbrisio'r dreth gyngor yn dechrau o dan ddarpariaethau Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), o 2030 i 2028. | Newidiwyd cyfeiriadau at 2030 i 2028 drwy'r Memorandwm Esboniadol, a darparwyd gwybodaeth yn amlinellu canlyniad ymgynghoriad Cam 2.<br><br>Mae'r paragraffau a'r tablau a ddiwygiwyd fel a ganlyn:<br><br>Paragraffau -<br>3.95;<br>4.9 – 4.13;<br>8.154;<br>8.162 – 8.166;<br>8.168 – 8.169;<br>8.173;<br>8.175 – 8.177;<br>8.180;<br>9.26; |

| **Gwelliant y llywodraeth** | **Effaith y gwelliant** | **Diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol** |
| --- | --- | --- |
| | | 12.9 – 12.10; a 12.17.<br><br>Tablau -<br>Tabl Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar tt.48 – 49;<br>Tablau 8.8 – 8.12;<br>Tabl 8.14;<br>Tablau 12.3; 12.4 a 12.6. |
| Gwelliant 4 y llywodraeth:<br>Adran 24, tudalen 36, llinell 12, ar ôl '25', mewnosoder 'a pharagraff [yr is-is-baragraff cyntaf i'w fewnosod gan welliant 6] o'r Atodlen (ac adran 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff [yr is-is-baragraff cyntaf i'w fewnosod gan welliant 6])'. | Bydd y gwelliant hwn yn sicrhau y bydd yr is-baragraff a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu hawl i apelio i'r Uwch Dribiwnlys mewn cysylltiad â phenderfyniadau a wneir gan Dribiwnlys Prisio Cymru yng nghyd-destun apeliadau o dan baragraffau 5C a 6AA o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 yn dod i rym drannoeth diwrnod y Cydsyniad Brenhinol ar gyfer y Bil. | Mae'r Nodiadau Esboniadol, yn enwedig mewn perthynas ag adran 15 o'r Bil, ac Atodlen 1 iddo, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 1, wedi'u diwygio i adlewyrchu dyddiad dod i rym yr is-baragraff a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu hawl i apelio i'r Uwch Dribiwnlys mewn cysylltiad â phenderfyniadau a wneir gan Dribiwnlys Prisio Cymru yng nghyd-destun apeliadau o dan baragraffau 5C a 6AA o Atodlen 9 i Ddeddf 1988. |
| Gwelliant 5 y llywodraeth:<br><br>Atodlen 1, tudalen 42, ar ôl llinell 10, mewnosoder— 'Deddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 (p. 29) [ ] (1) Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 wedi ei diwygio fel a ganlyn. (2) Yn Atodlen 3, hepgorer paragraff 23.' | Bydd y gwelliant hwn yn ychwanegu cyfeiriad at baragraff 23 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 at yr Atodlen i Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru). | Mae'r Nodiadau Esboniadol, yn enwedig mewn perthynas ag adran 15 o'r Bil, ac Atodlen 1 iddo, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 1, wedi cael eu diwygio i adlewyrchu ychwanegiad at yr Atodlen i'r Bil, sef cyfeiriad at baragraff 23 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 (at ddiben diddymu'r ddarpariaeth a ddisbyddwyd sy'n ymwneud â therfynau amser ar ryddhadau ardrethi annomestig dewisol na fydd yn gymwys i Gymru mwyach o ganlyniad i Fil |

| **Gwelliant y llywodraeth** | **Effaith y gwelliant** | **Diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol** |
|---|---|---|
| | | Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru).<br><br>Mae'r Atodlen Keeling hefyd yn dangos y newid i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997. |
| Gwelliant 6 y llywodraeth:<br><br>Atodlen 1, tudalen 44, ar ôl llinell 25, mewnosoder— '( ) ar ôl paragraff 11(1) mewnosoder— "(1A) Regulations under paragraph 1 may also include provision that an appeal lies to the Upper Tribunal in respect of a decision or order given or made by a tribunal established under that paragraph on an appeal under paragraph 5C or 6AA of Schedule 9.”; ( ) ym mharagraff 11, yn is-baragraff (1A) (fel y'i mewnosodir gan is-baragraff [yr is-baragraff cyntaf i'w fewnosod gan y gwelliant hwn]) o flaen "5C or 6AA" mewnosoder "5BB, 5BE, ".' | Bydd gwelliant 6 yn sicrhau y caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer hawliau apelio i'r Uwch Dribiwnlys, pan fo talwyr ardrethi yn ddarostyngedig i gosb am fethu â chydymffurfio â gofynion i ddarparu gwybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, CThEF ac awdurdodau lleol. Y bwriad yw sicrhau cysondeb ar draws dyletswyddau tebyg ar dalwyr ardrethi o fewn y system ardrethi annomestig, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd gan adran 12 o'r Bil. | Mae Tabl 5.1 (Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth) o'r Memorandwm Esboniadol wedi'i ddiweddaru i gynnwys y gwelliant hwn.<br><br>Mae'r Nodiadau Esboniadol, yn enwedig mewn perthynas ag adran 15 o'r Bil, ac Atodlen 1 iddo, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 1, wedi cael eu diwygio i adlewyrchu'r gwelliant i baragraff 11 o Atodlen 11 i Ddeddf 1988 sy'n ymwneud â hawliau apelio o Dribiwnlys Prisio Cymru i'r Uwch Dribiwnlys mewn cysylltiad â phenderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol, Asiantaeth y Swyddfa Brisio neu CThEF.<br><br>Mae'r Atodlen Keeling hefyd yn dangos y newidiadau i Ran 3 o Atodlen 11 i Ddeddf 1988. |
| Gwelliant 7 y llywodraeth:<br><br>Atodlen 1, tudalen 44, llinell 34, ar ôl '(e)', mewnosoder ', (3)(b)(i) a (6)'. | Bydd y gwelliant hwn yn ychwanegu adran 151(3)(b)(i) a (6) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 at y rhestr o ddarpariaethau a hepgorir gan y Bil hwn. Effaith y gwelliant hwn yw cynnwys darpariaethau, a fewnosodwyd yn flaenorol yn Neddf 1988 mewn cysylltiad â chosbau am fethu â darparu gwybodaeth i | Mae'r Nodiadau Esboniadol, yn enwedig mewn perthynas ag adran 15 o'r Bil, ac Atodlen 1 iddo, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 1, wedi'u diwygio i adlewyrchu'r ffaith nad yw'r darpariaethau hyn yn gymwys yng Nghymru mwyach. |

| Gwelliant y llywodraeth | Effaith y gwelliant | Diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol |
|---|---|---|
| | swyddogion prisio, ond sy'n cael eu disodli gan ddarpariaethau newydd yn y Bil hwn, yn yr Atodlen fel na fyddant yn gymwys mwyach yng Nghymru. | Mae'r Atodlen Keeling hefyd yn dangos y newid i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. |
| Gwelliant 8 y llywodraeth:<br><br>Atodlen 1, tudalen 45, ar ôl llinell 7, mewnosoder— '( ) ym mharagraff 11, yn is-baragraff (1A) (fel y'i mewnosodir gan baragraff [yr is-baragraff cyntaf i'w fewnosod gan welliant 6] o'r Atodlen hon) ar ôl "on an appeal under" mewnosoder "section 63L or".'. | Bydd y gwelliant hwn yn galluogi rheoliadau i ddarparu ar gyfer hawl i apelio i'r Uwch Dribiwnlys, mewn perthynas â hysbysiad atebolrwydd a osodir i wrthweithio trefniant osgoi artiffisial. | Mae Tabl 5.1 (Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth) o'r Memorandwm Esboniadol wedi'i ddiweddaru i gynnwys y gwelliant hwn.<br><br>Mae'r Nodiadau Esboniadol, yn enwedig mewn perthynas ag adran 15 o'r Bil, ac Atodlen 1 iddo, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 1, wedi'u diwygio i adlewyrchu'r hawl i apelio ar gyfer talwyr ardrethi i'r Uwch Dribiwnlys mewn perthynas â hysbysiad atebolrwydd a osodir i wrthweithio trefniant osgoi artiffisial.<br><br>Mae'r Atodlen Keeling hefyd yn dangos y newidiadau i Ran 3 o Atodlen 11 i Ddeddf 1988. |

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet**
**Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-RE-5685-24

John Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

2 Gorffennaf 2024

Annwyl John

**<u>Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)</u>**

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod Memorandwm Esboniadol diwygiedig wedi'i gyhoeddi cyn trafodion Cyfnod 3 ar gyfer Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), ac mae copi wedi'i gynnwys gyda'r llythyr hwn.

Mewn ymateb i argymhelliad Cyfnod 1 y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad statudol o'r defnydd o bwerau i wneud rheoliadau yn y Bil, rwyf wedi cynnwys ymrwymiad yn y Memorandwm Esboniadol i gynnal adolygiad ôl-weithredu anstatudol o weithrediad ac effaith y Bil, gan gynnwys y defnydd o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, cyn diwedd tymor y Seithfed Senedd (fel yr eglurais yn fy ymateb gwreiddiol i argymhellion y Pwyllgor, nid yw'r llywodraeth yn ystyried bod cynnwys gofyniad statudol i gynnal adolygiad yn angenrheidiol). Mae paragraff 11.5 o'r Memorandwm Esboniadol wedi'i ddiweddaru i gadarnhau hyn.

Mae nifer o ddiwygiadau eraill hefyd wedi'u gwneud i'r Memorandwm Esboniadol i adlewyrchu ymatebion y llywodraeth i argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a hefyd welliannau gan y llywodraeth a wnaed i'r Bil yn ystod Cyfnod 2. Rhestrir yr holl ddiwygiadau hyn yn Atodiad A isod.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office

**Atodiad A**

**Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) – Diwygiadau a wnaed i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu ymatebion y llywodraeth i argymhellion Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

| **Argymhelliad** | **Ymateb y llywodraeth** | **Diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol** |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 2:**<br>Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio'r Bil i gynnwys gofyniad i gynnal adolygiad statudol o'r defnydd o bwerau o dan adrannau 5 [rhyddhadau ardrethi annomestig], 9 [esemptiadau ardrethi annomestig], 10 [lluosyddion ardrethu annomestig], 13 [osgoi ardrethi annomestig] a 18 [disgowntiau'r dreth gyngor] o'r Bil. Dylai'r adolygiad gael ei gynnal cyn diwedd y Seithfed Senedd a dylai gynnwys:<br>• Asesiad gan Weinidogion Cymru o fecanweithiau deddfwriaethol amgen ar gyfer gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth Cymru yng nghyd-destun rhyddhadau, esemptiadau, lluosyddion a darpariaethau gwrth-osgoi mewn perthynas ag ardrethu annomestig, a disgowntiau'r dreth gyngor; a<br>• Gofyniad i ymgynghori â'r Senedd. | DERBYN MEWN EGWYDDOR.<br>Yn hytrach na chynnwys ymrwymiad i gynnal adolygiad statudol ar wyneb y Bil, bydd y llywodraeth yn diwygio'r Memorandwm Esboniadol ar ôl Cyfnod 2 i gynnwys ymrwymiad i gynnal adolygiad ôl-weithredu o weithrediad ac effaith y ddeddfwriaeth hon cyn diwedd y Seithfed Senedd. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y pwerau perthnasol i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil. | Gwnaed diwygiadau i baragraff 11.5 o Bennod 11 o'r Memorandwm Esboniadol, i gynnwys yr ymrwymiad i gynnal yr adolygiad ôl-weithredu a nodwyd mewn ymateb i'r argymhelliad Cyfnod 1 gan y Pwyllgor. |

**Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) – Diwygiadau a wnaed i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu ymatebion y llywodraeth i argymhellion Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Cyllid**

| Argymhelliad | Ymateb y llywodraeth | Diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 4:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu'r pwyntiau a godwyd ynghylch anghysondebau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a nodir yn yr adran hon, gyda'r bwriad o egluro'r wybodaeth a nodwyd mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. | DERBYN<br>Rydym yn diolch i'r Pwyllgor am ddod â'r rhain i'n sylw. Byddwn yn adolygu hyn er mwyn sicrhau bod y ffigurau'n gyson. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig yn cael ei ddarparu cyn Cyfnod 3. | Gwnaed newidiadau i Dabl 8.2; paragraff 8.128 a pharagraffau 8.91 ac 8.92 i fynd i'r afael ag anghysondebau a nodwyd gan y Pwyllgor ym mharagraff 53 o'ch adroddiad. Mae'r holl ffigurau perthnasol eraill a ddyfynnir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru i sicrhau cywirdeb a chysondeb rhwng y testun a'r tablau. |
| **Argymhelliad 5:** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu gwybodaeth am y risgiau a’r goblygiadau cost i Gymru, os bydd yn ymwahanu oddi wrth Loegr, o ran amseriad ei hailbrisiadau ardrethi annomestig, ac i’r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. | DERBYN<br>Fel y mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn egluro, ar hyn o bryd nid yw'n bosibl meintioli'n llawn y costau a'r risgiau a fyddai'n codi yn sgil ymwahanu. Fodd bynnag, mae'n bosibl darparu rhagor o wybodaeth am y goblygiadau sy'n ymwneud ag adnoddau i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, ynghyd â'r risgiau lefel uchel. Bydd manylion ychwanegol yn cael eu cynnwys cyn Cyfnod 3. | Mae gwybodaeth ychwanegol wedi'i chynnwys ym mharagraff 8.15 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Byddai ymwahanu oddi wrth Loegr mewn perthynas â'r cylch ailbrisio yn arwain at gynnydd yn y gofynion o ran adnoddau ym mhob maes prisio yng Nghymru. Mae amcangyfrifon Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn dangos cost ychwanegol o tua £1m fesul cylch ailbrisio. Gall prisiadau rhai mathau o eiddo fod yn llai cadarn, gan arwain at apeliadau a cholli gwerth ardrethol. |
| **Argymhelliad 6:** Mae’r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am gyfanswm cost y ddyletswydd newydd i dalwyr ardrethi i ddarparu gwybodaeth gyfredol i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, yn benodol, a yw’r gost o £35 a £20 fesul talwr ardrethi yn ychwanegol at y costau a amcangyfrifir ar hyn o bryd ar gyfer gweithgarwch | DERBYN<br>Mae'r ffigurau'n cynrychioli amcangyfrif cyfartalog o gostau ychwanegol cydymffurfio. Bydd y costau gwirioneddol yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. I rai talwyr ardrethi, ni fydd costau cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd yn golygu costau newydd neu ychwanegol o'u cymharu â'r rhai a delir o dan y system bresennol. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn yr Asesiad Effaith | Mae'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, fel y'i disgrifiwyd mewn ymateb i'r Pwyllgor yn ystod Cyfnod 1, wedi'i chynnwys ym mharagraff 8.126 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. |

| Argymhelliad | Ymateb y llywodraeth | Diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol |
|---|---|---|
| perthnasol, ac i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. | Rheoleiddiol diwygiedig cyn Cyfnod 3. | |
| **Argymhelliad 7:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y costau a'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â system ar-lein newydd Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Dylai hyn gynnwys pryd y bydd yn cael ei gweithredu a risgiau unrhyw oedi posibl wrth weithredu i dalwyr ardrethi sy'n cydymffurfio â'r gofynion newydd i ddarparu gwybodaeth, ac i'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. | DERBYN<br>Nid yw cwblhau ymarfer ailbrisio yn 2026 yn ddibynnol ar lansio'r system ar-lein, gan fod Asiantaeth y Swyddfa Brisio eisoes yn paratoi i ymgymryd â'r ymarfer hwnnw o dan y trefniadau presennol. Bwriedir i'r system sicrhau cynaliadwyedd ailbrisiadau amlach dros y tymor hirach. Nid oes unrhyw risg i dalwyr ardrethi sy'n gysylltiedig ag amseriad y lansiad, oherwydd dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru ac Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn fodlon ei bod yn rhesymol disgwyl i dalwyr ardrethi gydymffurfio y bydd y dyletswyddau'n dod i rym. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chynnwys, ochr yn ochr â'r amcangyfrif o'r costau a ddarparwyd eisoes, yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig cyn Cyfnod 3. | Mae paragraff 8.125 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddaru i egluro bod proffil cost Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar gyfer y system ar-lein yn seiliedig ar ragdybiaeth y bydd yn lansio yn ystod 2026-27. Mae hyn yn amodol ar gadarnhad wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen.<br><br>Mae paragraff 8.127 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i ddiweddaru i ddarparu'r esboniad a'r eglurhad ychwanegol, a ddarparwyd mewn ymateb i'r Pwyllgor yn ystod Cyfnod 1, ynghylch goblygiadau amseriad cyflwyno'r gwasanaeth ar-lein. |

**Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) – Diwygiadau a wnaed i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu ymatebion y llywodraeth i argymhellion Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

| Argymhelliad | Ymateb y llywodraeth | Diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol |
|---|---|---|
| **Argymhelliad 13:**<br>Dylai'r Gweinidog egluro pa weithdrefn craffu fydd yn gymwys i reoliadau a wneir o dan adran 13(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ('Deddf 1992') (fel y'i diwygiwyd). | Bydd rheoliadau a wneir o dan adran 13(1) o Ddeddf 1992 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol fel y'i darperir yn barod yn Neddf 1992. Bydd Tabl 5.1 yn y Memorandwm Esboniadol yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r sefyllfa hon. | Mae Tabl 5.1 yn y Memorandwm Esboniadol wedi'i ddiwygio. |

**Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) – Diwygiadau a wnaed i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol i adlewyrchu gwelliannau Cyfnod 2 gan y llywodraeth**

| **Gwelliant y llywodraeth** | **Effaith y gwelliant** | **Diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol** |
|---|---|---|
| Gwelliant 1 y llywodraeth:<br>Adran 14, tudalen 24, llinell 22, ar ôl 'paragraphs', mewnosoder '1(2),'. | Mae'r gwelliant hwn yn sicrhau bod y weithdrefn gadarnhaol yn parhau i fod yn gymwys i bŵer presennol i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â gosod y swm dyddiol y gellir ei godi ar gyfer hereditamentau gwag cyn i unrhyw ryddhadau gael eu cymhwyso. | Yr unig newid sy'n ofynnol yw mân ddiweddariad a wneir i adlewyrchu effaith y gwelliant yn yr Atodlen Keeling ar gyfer adran 143A(5)(i) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ('Deddf 1988'). |
| Gwelliant 2 y llywodraeth:<br><br>Adran 21, tudalen 33, llinell 27, hepgorer '2029' a mewnosoder '2027'**.** | Mae'r gwelliant hwn yn disodli cyfeiriad at y flwyddyn 2029 â chyfeiriad at 2027. Bydd hyn yn newid y flwyddyn ddiweddaraf y caiff Gweinidogion Cymru, o dan y pwerau deddfwriaethol presennol, bennu fel y flwyddyn pryd y mae'r rhestr brisio treth gyngor nesaf i gael ei llunio. Y bwriad yw dechrau cylchoedd pum mlynedd ar gyfer ailbrisio'r dreth gyngor yn 2028. | Mae'r Nodiadau Esboniadol wedi'u diweddaru mewn perthynas ag adran 21 'Y weithdrefn ar gyfer llunio rhestrau prisio' i ddisodli cyfeiriad at y flwyddyn 2029 â chyfeiriad at 2027.<br><br>Mae'r Atodlen Keeling, yn enwedig is-adrannau newydd (3A) i (3C) o fewn adran 22B o Ddeddf 1992, hefyd wedi'u diweddaru yn hyn o beth. |
| Gwelliant 3 y llywodraeth:<br>Adran 21, tudalen 33, llinell 31, hepgorer '2030' a mewnosoder '2028'**.** | Mae'r gwelliant hwn yn newid cyfeiriad at y flwyddyn pan fydd y cylchoedd pum mlynedd ar gyfer ailbrisio'r dreth gyngor yn dechrau o dan ddarpariaethau Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru), o 2030 i 2028. | Newidiwyd cyfeiriadau at 2030 i 2028 drwy'r Memorandwm Esboniadol, a darparwyd gwybodaeth yn amlinellu canlyniad ymgynghoriad Cam 2.<br><br>Mae'r paragraffau a'r tablau a ddiwygiwyd fel a ganlyn:<br><br>Paragraffau -<br>3.95;<br>4.9 – 4.13;<br>8.154;<br>8.162 – 8.166;<br>8.168 – 8.169;<br>8.173;<br>8.175 – 8.177;<br>8.180;<br>9.26; |

| **Gwelliant y llywodraeth** | **Effaith y gwelliant** | **Diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol** |
|---|---|---|
| | | 12.9 – 12.10; a<br>12.17.<br><br>Tablau -<br>Tabl Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar tt.48 – 49;<br>Tablau 8.8 – 8.12;<br>Tabl 8.14;<br>Tablau 12.3; 12.4 a 12.6. |
| Gwelliant 4 y llywodraeth:<br>Adran 24, tudalen 36, llinell 12, ar ôl '25', mewnosoder 'a pharagraff [yr is-is-baragraff cyntaf i'w fewnosod gan welliant 6] o'r Atodlen (ac adran 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff [yr is-baragraff cyntaf i'w fewnosod gan welliant 6])'. | Bydd y gwelliant hwn yn sicrhau y bydd yr is-baragraff a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu hawl i apelio i'r Uwch Dribiwnlys mewn cysylltiad â phenderfyniadau a wneir gan Dribiwnlys Prisio Cymru yng nghyd-destun apeliadau o dan baragraffau 5C a 6AA o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 yn dod i rym drannoeth diwrnod y Cydsyniad Brenhinol ar gyfer y Bil. | Mae'r Nodiadau Esboniadol, yn enwedig mewn perthynas ag adran 15 o'r Bil, ac Atodlen 1 iddo, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 1, wedi'u diwygio i adlewyrchu dyddiad dod i rym yr is-baragraff a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu hawl i apelio i'r Uwch Dribiwnlys mewn cysylltiad â phenderfyniadau a wneir gan Dribiwnlys Prisio Cymru yng nghyd-destun apeliadau o dan baragraffau 5C a 6AA o Atodlen 9 i Ddeddf 1988. |
| Gwelliant 5 y llywodraeth:<br><br>Atodlen 1, tudalen 42, ar ôl llinell 10, mewnosoder— 'Deddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 (p. 29) [ ] (1) Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 wedi ei diwygio fel a ganlyn. (2) Yn Atodlen 3, hepgorer paragraff 23.' | Bydd y gwelliant hwn yn ychwanegu cyfeiriad at baragraff 23 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 at yr Atodlen i Fil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru). | Mae'r Nodiadau Esboniadol, yn enwedig mewn perthynas ag adran 15 o'r Bil, ac Atodlen 1 iddo, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 1, wedi cael eu diwygio i adlewyrchu ychwanegiad at yr Atodlen i'r Bil, sef cyfeiriad at baragraff 23 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 (at ddiben diddymu'r ddarpariaeth a ddisbyddwyd sy'n ymwneud â therfynau amser ar ryddhadau ardrethi annomestig dewisol na fydd yn gymwys i Gymru mwyach o ganlyniad i Fil |

| Gwelliant y llywodraeth | Effaith y gwelliant | Diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol |
|---|---|---|
| | | Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru).<br><br>Mae'r Atodlen Keeling hefyd yn dangos y newid i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997. |
| Gwelliant 6 y llywodraeth:<br><br>Atodlen 1, tudalen 44, ar ôl llinell 25, mewnosoder— '( ) ar ôl paragraff 11(1) mewnosoder— "(1A) Regulations under paragraph 1 may also include provision that an appeal lies to the Upper Tribunal in respect of a decision or order given or made by a tribunal established under that paragraph on an appeal under paragraph 5C or 6AA of Schedule 9.”; ( ) ym mharagraff 11, yn is-baragraff (1A) (fel y'i mewnosodir gan is-baragraff [yr is-baragraff cyntaf i'w fewnosod gan y gwelliant hwn]) o flaen "5C or 6AA" mewnosoder "5BB, 5BE, ".' | Bydd gwelliant 6 yn sicrhau y caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer hawliau apelio i'r Uwch Dribiwnlys, pan fo talwyr ardrethi yn ddarostyngedig i gosb am fethu â chydymffurfio â gofynion i ddarparu gwybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, CThEF ac awdurdodau lleol. Y bwriad yw sicrhau cysondeb ar draws dyletswyddau tebyg ar dalwyr ardrethi o fewn y system ardrethi annomestig, gan gynnwys y rhai a gyflwynwyd gan adran 12 o'r Bil. | Mae Tabl 5.1 (Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth) o'r Memorandwm Esboniadol wedi'i ddiweddaru i gynnwys y gwelliant hwn.<br><br>Mae'r Nodiadau Esboniadol, yn enwedig mewn perthynas ag adran 15 o'r Bil, ac Atodlen 1 iddo, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 1, wedi cael eu diwygio i adlewyrchu'r gwelliant i baragraff 11 o Atodlen 11 i Ddeddf 1988 sy'n ymwneud â hawliau apelio o Dribiwnlys Prisio Cymru i'r Uwch Dribiwnlys mewn cysylltiad â phenderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol, Asiantaeth y Swyddfa Brisio neu CThEF.<br><br>Mae'r Atodlen Keeling hefyd yn dangos y newidiadau i Ran 3 o Atodlen 11 i Ddeddf 1988. |
| Gwelliant 7 y llywodraeth:<br><br>Atodlen 1, tudalen 44, llinell 34, ar ôl '(e)', mewnosoder ', (3)(b)(i) a (6)'. | Bydd y gwelliant hwn yn ychwanegu adran 151(3)(b)(i) a (6) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 at y rhestr o ddarpariaethau a hepgorir gan y Bil hwn. Effaith y gwelliant hwn yw cynnwys darpariaethau, a fewnosodwyd yn flaenorol yn Neddf 1988 mewn cysylltiad â chosbau am fethu â darparu gwybodaeth i | Mae'r Nodiadau Esboniadol, yn enwedig mewn perthynas ag adran 15 o'r Bil, ac Atodlen 1 iddo, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 1, wedi'u diwygio i adlewyrchu'r ffaith nad yw'r darpariaethau hyn yn gymwys yng Nghymru mwyach. |

| Gwelliant y llywodraeth | Effaith y gwelliant | Diwygiadau i'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol |
|---|---|---|
| | swyddogion prisio, ond sy'n cael eu disodli gan ddarpariaethau newydd yn y Bil hwn, yn yr Atodlen fel na fyddant yn gymwys mwyach yng Nghymru. | Mae'r Atodlen Keeling hefyd yn dangos y newid i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. |
| Gwelliant 8 y llywodraeth:<br><br>Atodlen 1, tudalen 45, ar ôl llinell 7, mewnosoder— '( ) ym mharagraff 11, yn is-baragraff (1A) (fel y'i mewnosodir gan baragraff [yr is-baragraff cyntaf i'w fewnosod gan welliant 6] o'r Atodlen hon) ar ôl "on an appeal under" mewnosoder "section 63L or".'. | Bydd y gwelliant hwn yn galluogi rheoliadau i ddarparu ar gyfer hawl i apelio i'r Uwch Dribiwnlys, mewn perthynas â hysbysiad atebolrwydd a osodir i wrthweithio trefniant osgoi artiffisial. | Mae Tabl 5.1 (Crynodeb o'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth) o'r Memorandwm Esboniadol wedi'i ddiweddaru i gynnwys y gwelliant hwn.<br><br>Mae'r Nodiadau Esboniadol, yn enwedig mewn perthynas ag adran 15 o'r Bil, ac Atodlen 1 iddo, sy'n gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol sy'n ymwneud â Rhan 1, wedi'u diwygio i adlewyrchu'r hawl i apelio ar gyfer talwyr ardrethi i'r Uwch Dribiwnlys mewn perthynas â hysbysiad atebolrwydd a osodir i wrthweithio trefniant osgoi artiffisial.<br><br>Mae'r Atodlen Keeling hefyd yn dangos y newidiadau i Ran 3 o Atodlen 11 i Ddeddf 1988. |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon